Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**ADRODDIAD I FWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**
**3ydd Chwefror 2023**

| | |
|---|---|
| **TEITL:** | Prosiect Hwb Hydrogen a Datgarboneiddio Trafnidiaeth |
| **AWDUR:** | Graham Williams, Rheolwr Prosiect<br>Henry Aron, Rheolwr Rhaglen Ynni Carbon Isel |

## 1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yw ceisio cymeradwyaeth ar gyfer cyflawni'r proses o benodi noddwr prosiect i gyflawni'r prosiect.

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1. Cymeradwyo'r broses arfaethedig i benodi noddwr prosiect;

2.2. Dirprwyo i Gyfarwyddwr y Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, yr Is-gadeirydd, ac Swyddog Monitro yr awdurdod i gwblhau'r dogfennau ar gyfer y broses ddethol er mwyn penodi noddwr prosiect a chyflawni'r broses ar ran y Bwrdd;

2.3. Nodi, ar ôl cwblhau'r broses ddethol, y gwneir argymhelliad i'r Bwrdd Uchelgais er cymeradwyaeth.

## 3. Y RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

3.1. Fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

## 4. CEFNDIR AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

4.1. Y ffordd ymlaen y cytunwyd arni ar gyfer y prosiect yw penodi partner (noddwr prosiect) drwy broses ddethol gystadleuol i ddatblygu achos busnes a chyflawni'r prosiect hwb hydrogen. Dechreuodd hyn gyda Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw (PIN) i asesu dyhead, capasiti a gallu'r farchnad i gyflawni'r prosiect mewn partneriaeth gydag Uchelgais Gogledd Cymru.

4.2. Ar 30 Medi 2022, cytunodd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru ar y camau a ganlyn:

- Cymeradwyo'r camau nesaf ar gyfer y prosiect a'r egwyddorion caffael drafft;
- Dirprwyo i Gyfarwyddwr y Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, yr awdurdod i gwblhau manyleb yr ymarferiad caffael yn derfynol ac yna ymgymryd â'r ymarferiad caffael ar ran y Bwrdd.
- Nodi, ar ôl cwblhau'r broses gaffael, y gwneir argymhelliad i'r Bwrdd er cymeradwyaeth.

### 4.3. Y Dull i Benodi Noddwr

4.3.1. Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio wedi gweithio gyda thîm o ymgynghorwyr caffael arbenigol o'r ymgynghoriaeth Local Partnerships i ystyried y dull mwyaf priodol o benodi noddwr.

4.3.2. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd a gweithdai i drafod y llwybrau caffael posib ynghyd â'u manteision, eu hanfanteision ac unrhyw gyfyngiadau. Daeth y broses i'r casgliad nad defnyddio caffael cyhoeddus cystadleuol yng nghyd-destun y Rheoliadau Caffael Cyhoeddus fyddai'r dull gorau o benodi noddwr prosiect. Y rhesymeg y tu ôl i'r argymhelliad hwn yw:

- Ni phennir bod y broses o benodi noddwr yn broses caffael cyhoeddus, o gofio nad yw'n bosib diffinio'n glir y nwyddau/gwasanaeth/gwaith manwl y byddai gofyn i bartner y sector preifat eu darparu. Rôl y sector preifat yw gweithredu fel 'noddwr prosiect' yn hytrach na rôl 'partner'. Mae ei ystyr cyfreithiol ei hun i'r term 'partner' ac nid yw'n disgrifio'n gywir yr hyn y mae'r prosiect ei eisiau.
- Un gofyn allweddol unrhyw gaffaeliad cyhoeddus yw'r gallu i nodi'n glir o'r dechrau beth sydd ei angen, pa feini prawf a ddefnyddir er mwyn cynnal unrhyw broses ddethol gystadleuol, ac yna dethol bidiwr llwyddiannus. Nid yw'r hyblygrwydd sydd ei angen i ddatblygu model cyflawni priodol ar gyfer y prosiect hwn yn cyd-fynd â Rheoliadau Caffael Cyhoeddus ac felly mae'n codi'r risg o her.
- Fe wnaeth y gweithdai hefyd ddatgelu, yn sgil natur gyflym y prosiect, na fyddai'r un broses gaffael sefydledig yn medru derbyn y lefel uchel o hyblygrwydd fyddai ei angen ar y pwynt hwn. Casgliad y gweithdai oedd y byddai datblygu unrhyw broses gaffael yn hynod gymhleth a gallai arwain at ymateb annigonol o'r farchnad neu her bosib gan fidiwr aflwyddiannus.
- Byddai angen i fidwyr ymgymryd â gwaith helaeth o fewn proses gaffael ffurfiol er mwyn galluogi i'r broses gystadleuol gael ei dilyn. Mae risg sylweddol y byddai'r buddsoddiad ymlaen llaw hwn mewn amser ac adnoddau i ddatblygu cynnig heb unrhyw warant o lwyddo yn profi i fod yn anghymhelliad. Gallai hyn arwain at fethu i gaffael.

4.3.3. O ganlyniad, ystyriwyd bod yr opsiwn o ddefnyddio proses sy'n debyg i 'Broses Newid Prosiectau' yn broses fwy addas i benodi noddwr. Argymhellwyd y byddai'r broses yn darparu dewis amgen addas i broses gaffael ffurfiol a byddai'n cynorthwyo i gyflymu'r broses, ar yr amod bod y broses yn cael ei gweithredu'n agored ac yn dryloyw ac yn cael ei chyfathrebu'n eang i unrhyw bartïon posib fyddai â diddordeb.

## 4.4. Y broses ar gyfer Penodi Noddwr Prosiect

4.4.1. Mae'r PMO wedi comisiynu arbenigwr o'r sector hydrogen i gefnogi'r gwaith o ddatblygu dogfennaeth y broses ddethol. Mae'r broses a'r ddogfennaeth yn tynnu ar elfennau perthnasol o Broses Newid Prosiectau'r Cynllun Twf a phecyn Model Busnes Hydrogen Llywodraeth y DU. Teitl y broses ar hyn o bryd yw 'Her Noddwr Hydrogen'.

### Meini Prawf Dethol

4.4.2. Yn debyg i'r Broses Newid Prosiectau, rydym wedi alinio ein sgoriau o amgylch tri maen prawf: Addas yn strategol, Effaith a Gallu i Gyflawni. Mae Atodiad 1 yn nodi'r ystyriaethau allweddol ar gyfer y tri maen prawf.

4.4.3. Mae 'Addas yn Strategol' yn cyfeirio at bolisïau a strategaethau allweddol ar gyfer y DU, Cymru a Gogledd Cymru. Mae 'Effaith' yn cyfeirio ar amcanion gwariant y Rhaglen Ynni Carbon Isel o swyddi, twf economaidd, buddsoddiad ac arbedion carbon. Y maen prawf 'Gallu i Gyflawni' fydd yn derbyn y pwysoliad uchaf a bydd yn uwch na'r hyn a gynigir ar gyfer y Broses Newid Prosiectau am dri rheswm:

- Mae prosiectau Hydrogen yn brosiectau sicrwydd isel lle mae ffactorau allanol a all effeithio'n sylweddol arnynt, er enghraifft, caffael tir, cynllunio, caniatâd ac anaeddfedrwydd y gadwyn gyflenwi.
- Mae llawer mwy nad ydym yn ei wybod am yr elfennau risg uchaf a gellir asesu'r rhain drwy gyfeirio at dystiolaeth wrthrychol a chanfyddadwy.
- Mae ffactorau y byddai'n rhaid i fidiwr o ddifri eu hystyried yn gynnar iawn mewn unrhyw brosiect ac felly dylai'r ymgeiswyr allu darparu tystiolaeth o gynnydd gyda'r rhain. Mae hyn yn cynnwys pethau fel trefniadau ar gyfer cyflenwad trydan, dŵr a hawliau tir. Mae pob un o'r rhain yn fater critigol ar gyfer unrhyw fid o ddifri ac mae ein sgorio yn ystyried hyn gyda nodwedd isafswm sgôr wedi'i adeiladu i mewn i'r matrics.

**Proses Ddethol**

4.4.4. Rydym wedi dylunio proses ddethol i'n helpu ni i argymell yr ymgeisydd y credwn ni sydd â'r cynllun gorau a mwyaf credadwy i gyflawni prosiect sy'n cyflawni yn erbyn ein hamcanion gwariant. Mae siart llif cryno o'r broses isod ac mae'n nodi'r camau allweddol. Mae'r dyddiadau'n ddangosol oherwydd y tirlun polisi esblygol.

4.4.5. Mae pob cam yn galluogi i ni fireinio'r dewisiadau ymhellach. Fel sydd wedi dod yn gynyddol amlwg, mae'r sector hydrogen yn dal i fod yn newydd iawn a bydd angen i'r diwydiant ymateb i bolisi'r llywodraeth sy'n esblygu ar yr un pryd. Er enghraifft, rydym yn disgwyl cyhoeddiadau yn ail hanner 2023 ynghylch pecynnau cefnogaeth y llywodraeth ar gyfer cynhyrchu, blendio hydrogen i'r grid nwy, ac ar gyfer storio a dosbarthu. Mae'n bosib y bydd angen ystyried y cyhoeddiadau hyn wrth i ni fwrw ymlaen drwy'r broses ddethol ac felly rydym wedi rhoi lle i'r ansicrwydd hwn gyda chyfnod o eglurhad a negodi. Mae'n gam carreg filltir a fydd yn galluogi i'r holl bartïon ystyried polisi'r llywodraeth. Ni allwn ragfynegi beth allan polisi'r llywodraeth fod, ond rhaid i ni barhau'n ymwybodol o ddatblygiadau yr ydym yn gwybod amdanynt fel y rhain a chynllunio i ymateb yn unol â hynny.

4.4.6. Byddwn hefyd yn cadw'r hawl i argymell y dylai ymgeiswyr cryf sydd o bosib yn cyd-fynd â'i gilydd ystyried gydweithio ar unrhyw gam o'r broses. Ac anogir ymgeiswyr yn gryf i ystyried yr agwedd hon cyn ymgeisio.

<u>Cam 1 - Digwyddiad Briffio (Mawrth 2023)</u>
Cynhelir y digwyddiad briffio cyn agor y ffenestr ymgeisio. Bydd yn cynnwys cyflwyniad ar amlinelliad o'r gystadleuaeth arfaethedig, ac yna cwestiynau ac atebion.

<u>Cam 2 - Mireinio'r Cynnig (Mawrth 2023)</u>
Rydym yn cydnabod y gallai'r digwyddiad briffio gynhyrchu nifer o faterion y bydd angen eu hystyried ac ymgynghori ymhellach arnynt. Felly, rydym wedi amserlenni amser i fireinio'r cynnig i'r farchnad, os bydd angen, cyn agor y gystadleuaeth. Mae hwn yn ddull a ddefnyddir yn gyffredin gan y Llywodraeth wrth ddatblygu cystadlaethau tebyg.

<u>Cam 3 - Ffenestr ymgeisio yn agor (Ebrill 2023)</u>
Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r ffurflen gais a'r dogfennau atodol o fewn chwe wythnos.

<u>Cam 4 - Cymhwyster a Gwerthuso (Mai 2023)</u>
Byddwn yn ymgymryd â gwiriad cymhwyster ar bob cais. Bydd hyn yn golygu asesu pa mor gredadwy yw'r dystiolaeth a ddarparwyr a pha mor gadarn yw unrhyw gyfrifiadau a

ddefnyddiwyd. Cyfeirir at yr isafswm sgoriau gallu i gyflawni. Rhaid i geisiadau gyflawni'r isafswm sgoriau ar yr adran gallu i gyflawni o'r ddogfen asesu er mwyn bwrw ymlaen ymhellach.

Cam 5 - Rhestr Fer (Mai 2023)
Caiff ceisiadau sy'n bodloni'r meini prawf cymhwyster a'r isafswm sgoriau gallu i gyflawni eu hasesu yn unol â gwerthusiad wedi'i bwysoli. Mae'r tri phrif faes asesu wedi'u pwysoli fel a ganlyn ar hyn o bryd:

| | |
|---|---|
| Addas yn strategol | 20% |
| Effaith | 35% |
| Gallu i Gyflawni | 45% |

Cam 6 - Cyfweliad a Chyflwyniadau (Mehefin 2023)
Gofynnir i'r ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer ddarparu manylion pellach ar eu cynigion ynghyd â darparu cyflwyniad fel rhan o gam nesaf yr asesiad

Cam 7 (Haf 2023) - Eglurhad a Negodi
Mae'n bosib y bydd rhai ffactorau allanol wedi newid erbyn y pwynt hwn a fyddai'n arwain at gyfleoedd newydd i'r holl bartïon drafod cydweithio â sefydliadau eraill. Er enghraifft, mae'n bosib y byddai ymgeiswyr wedi cael gwybodaeth gan Lywodraeth y DU ynghylch deilliannau ceisiadau ariannu ac mae'n bosib y bydd gwybodaeth bellach ynghylch dull Llywodraeth y DU o flendio hydrogen i mewn i'r grid nwy. Mae'n bosib hefyd y bydd gwybodaeth bellach ar gael ynghylch cefnogaeth Llywodraeth y DU ar gyfer storio a dosbarthu. Mae'r cam hwn yn caniatáu amser i ddatrys y posibiliadau hyn y gwyddys amdanynt yn llwyddiannus ac mae'n caniatáu i bob parti roi sylw i unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau.

Cam 8 (Haf 2023) - Y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn Dethol Noddwr
Bydd y Bwrdd Uchelgais Economaidd yn dethol y noddwr prosiect a ffefrir yn ffurfiol. Yna caiff arian ei ryddhau yn ddarostyngedig i gymeradwyo'r achos busnes.

Cam 9 (Hydref 2023 - Hydref 2024) - Datblygu'r Achos Busnes a Chymeradwyo Cyllid
Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn datblygu achosion busnes yn unol â chanllawiau Better Business Case a Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF. Dim ond wedi i'r Bwrdd Uchelgais Economaidd gymeradwyo'r Achos Busnes Llawn a chytuno ar gytundeb ariannu y sicrheir unrhyw gyllid drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd angen cwblhau'r prif gytundebau caffael a chynllunio/caniatâd cyn cael cymeradwyaeth i'r Achos Busnes Llawn.

**4.5. Y Cynnig i'r Farchnad a Sgôp y Gystadleuaeth**

4.5.1. Bydd y noddwr yn derbyn:

- Hyd at £11.4 miliwn o gyllid cyfalaf gan y Cynllun Twf i fuddsoddi mewn galluogi galw. Bydd hyn yn helpu sefydliadau sy'n cael eu pweru gan danwydd ffosil i ddatgarboneiddio drwy fod yn gwsmeriaid hydrogen carbon isel. Pan gynhwysir cyfleuster cynhyrchu hydrogen y noddwr, mae hyn yn creu hwb hydrogen.
- Cefnogaeth Uchelgais Gogledd Cymru a'n partneriaid i helpu i greu hwb hydrogen. Mae hyn yn cynnwys ystyried yn weithredol ein cymeradwyaeth ar gyfer ceisiadau yn y dyfodol ar gyfer pecynnau cymorth hydrogen carbon isel y llywodraeth fel Cronfa Hydrogen Net Sero a Model Busnes Hydrogen. Gallai hefyd gynnwys cynlluniau hydrogen y Llywodraeth yn y dyfodol a allai ddatblygu ein hamcanion ymhellach.

- Mynediad at sgiliau, hyfforddiant a chymorth addysg drwy'r ddwy brifysgol a'r dau coleg addysg bellach sy'n bartneriaid.

4.5.2. Bydd y Noddwr Prosiect yn darparu:

- O fewn 12 mis: Achos Busnes (yn unol â Chanllawiau Better Business Case) sy'n nodi'r achos dros hwb hydrogen carbon isel gan gynnwys cyfleuster cynhyrchu hydrogen.

- Erbyn 2027: canolfan hydrogen gweithredol gan gynnwys cynhyrchu ac off-takers. Bydd y cyfleuster cynhyrchu hydrogen yn cael ei ariannu gan y noddwr.


**Galluogi Galw**

4.5.3. Mae'r cynnig yn nodi'n glir bod cyfalaf y Cynllun Twf i'w dargedu at elfen cwsmeriaid y gadwyn gwerth hydrogen. Yna, rydym wedi egluro'n fanylach beth allai hynny ei olygu a rhoi diffiniad clir iddo o dan y term *Galluogi Galw*.

4.5.4. Mae'r galw am hydrogen carbon isel yn ddibynnol ar nifer o ffactorau sy'n cynnwys: ymrwymiad i ddatgarboneiddio, astudiaethau dichonoldeb, treialon, a bwriad gwybodus o ddefnyddio hydrogen carbon isel yng ngweithrediadau sefydliad. Pan fydd hyn yn ei le, mae angen i sefydliadau wedyn gyflawni gwaith technegol galluogol i offer, peiriannau, a/neu gerbydau. Fodd bynnag, dydi'r bwriad a'r offer ddim ond yn dod yn *alw* pan fyddant yn cyd-fynd â chyflenwad hyfyw o hydrogen carbon isel.

4.5.5. Felly, rydym yn diffinio 'galluogi galw' fel bod wrth groesffordd:

- Y bwriad i ddefnyddio hydrogen carbon isel.
- Offer sydd wedi'i gomisiynu sy'n gallu defnyddio hydrogen carbon isel.
- Cyflenwad hyfyw o hydrogen carbon isel.




4.5.6. Mae'r ffurflen gais a'r canllawiau cysylltiedig yn mynd i fwy o fanylder drwy hefyd egluro'r hyn nad yw'n cael ei ystyried yn ddefnydd derbyniol ar gyfer cronfeydd y Cynllun Twf. Er enghraifft, rydym yn ei gwneud yn glir nad yw'r arian ar gyfer y cyfleuster cynhyrchu hydrogen, nac ar gyfer datblygu'r Achos Busnes Amlinellol.

4.5.7. Mae adborth y diwydiant wedi bod yn arbennig o gefnogol i'n dull o alluogi galw am dri phrif reswm:

- Mae'n datblygu sylfaen cwsmeriaid hydrogen, sy'n hanfodol i lwyddiant unrhyw economi hydrogen.

- Mae'n cynorthwyo buddsoddwyr mewn cynhyrchu hydrogen i gael yr hyder i gyrraedd Penderfyniad Buddsoddi Terfynol oherwydd eu bod yn gallu gweld y cwsmeriaid yn glir i gyfiawnhau eu buddsoddiad. Dylid nodi y bydd y buddsoddiad allanol, mae'n debyg, yn llawer uwch na'r elfen Cynllun Twf ar gyfer y prosiect hwn. Er enghraifft, gallai cyfleuster cynhyrchu hydrogen maint canolig (30MW) olygu bod angen buddsoddiad mewnol o £50 miliwn - £60 miliwn yn unig ar gyfer y cyfleuster cynhyrchu hydrogen.
- Mae'n galluogi i'r noddwr gyflwyno cais cryf i Lywodraeth y DU am gymorth cyfalaf a chymhorthdal i gynhyrchu hydrogen. Mae'r cymhorthdal yn eu galluogi i werthu hydrogen am bris sy'n gystadleuol gyda nwy. Caiff ei ddyrannu gan broses gystadleuol sy'n agored i'r DU gyfan, felly mae popeth y gallwn ei wneud i geisiadau estynedig yng Ngogledd Cymru yn cynyddu'r siawns o lwyddiant.

**4.6. Camau nesaf**

4.6.1. Mireinio dogfennaeth Her Ariannu Hydrogen drwy barhau i ymgynghori â'r diwydiant, y ddwy lywodraeth, a rhanddeiliaid allweddol eraill.

**4.7. Y Prif Risgiau**

| Risgiau | Lliniaru |
|---|---|
| **Oedi cyn cyflwyno'r broses gystadlu** | • Ymgynghorydd arbenigol i gefnogi gyda pharatoi'r broses.<br>• Cyd-fynd â Phroses Newid Prosiectau lle bo'n briodol |
| **Diffyg ceisiadau** | • Ymgysylltu sylweddol â'r farchnad drwy PIN a dilyn gyda'r diwydiant a'r Llywodraeth i gadarnhau ble y dylai ein buddsoddiad gael ei ganolbwyntio |
| **Cyflawni arfarniad proses gystadleuol briodol** | • Arfarniad opsiynau gyda chefnogaeth arbenigwyr o Local Partnerships |
| **Rhyng-ddibyniaeth bosibl gyda Phroses Model Busnes Hydrogen Llywodraeth y DU** | • Ymgysylltu â swyddogion LlyDU i ddeall llinell amser HBM<br>• Bydd cyfnod Eglurhad a Negodi yn rhoi cyfle i reoli cyd-ddibyniaeth bosibl |

**5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

5.1. Bydd y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno'r broses gystadleuol ar gyfer penodi noddwr prosiect yn cael eu talu o gyllideb y Swyddfa Rheoli Portffolio.

**6. GOBLYGIADAU CYFREITHIOL**

6.1. Bydd cyngor technegol a chyfreithiol arbenigol yn cael ei gomisiynu cyn dechrau ar y broses o benodi noddwr. Ymgynghorir â'r Swyddog Monitro ar y ddogfennaeth ddrafft cyn ei chwblhau. O ystyried natur Galluogi Galw bydd hefyd angen sicrhau bod y cytundeb ariannu yn y pen draw yn ddigon manwl gywir i sicrhau bod Cyllid y Cynllun Twf yn cael ei gymhwyso i sicrhau

bod yr allbynnau'n cael eu cyflawni a'u cynnal. Bydd angen adolygu’r fethodoleg arfaethedig o safbwynt gofynion Rheoli Cymhorthdal i sicrhau ei bod yn cael ei chynnal yn unol ag unrhyw ofynion rheoliadol.

---

**ATODIADAU:**

| | |
|---|---|
| **Atodiad 1** | Meini Prawf Asesu |

---

**YMATEB Y SWYDDOGION STATUDOL:**

**i. Swyddog Monitro - Awdurdod Lletya:**

“Mae’r adroddiad yn tanlinellu cymhlethdod y project a’r gwaith manwl sydd wedi mynd i greu model priodol. Mae agweddau technegol sydd yn parhau angen eu deall a’u hadlewyrchu yn y drefn er cwblhau y ffordd ymlaen. Fodd bynnag dwy fabwysiadu trefn agored a chystadleuol darperir ar gyfer proses deg a thryloyw er adnabod Noddwr Prosiect. Mae’r dirprwyo a argymhellir yna adlewyrchu hyn.”

**ii. Swyddog Cyllid Statudol (Swyddog Adran 151 yr Awdurdod Lletya):**

“Nid oes gennyf wrthwynebiad i’r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.”

---